OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1857 (Cy.181)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 484, 489 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) a freinwiyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "addysg bellach" yr ystyr a roddir i "*further education*" yn adran 2(3) o Ddeddf 1996;

mae i "addysg uwch" yr ystyr a roddir i "*higher education*" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

ystyr "awdurdod addysg" ("*education authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr "Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad" ("*Assembly Learning Grant Scheme*") yw'r Cynllun a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac sy'n nodi'r amodau ynghylch gwneud grant gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn, i ad-dalu gwariant a gymeradwywyd yr aiff awdurdodau addysg iddo wrth dalu Grantiau Dysgu'r Cynulliad o dan Reoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002(**3**);

(**1**) 1996 p.56; diwygiwyd adrannau 484 a 489 gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 125 a 126 o Atodlen 30 iddi. Am ystyr "regulations" *gweler* adran 579(1).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2002/1856 (Cy.180)

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedalethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "grant" ("*grant*") yw grant taladwy o dan adran 484 o Ddeddf 1996 yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "gwariant a gymeradwywyd" ("*approved expenditure*") yw unrhyw wariant a ragnodwyd ac a gymeradwywyd yn ôl y ddarpariaeth yn rheoliad 3;

ystyr "gwariant a ragnodwyd" ("*prescribed expenditure*") yw gwariant gan awdurdod addysg at ddiben neu yng nghyswllt diben a bennir yn yr Atodlen;

ystyr "penderfynu" ("*determine*") yw penderfynu drwy hysbysiad ysgrifenedig.

(2) Yn y Rheoliadau hyn y mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at reoliad a gynhwysir ynddynt, y mae cyfeiriad mewn rheoliad at baragraff yn gyfeiriad at baragraff yn y rheoliad hwnnw, ac y mae cyfeiriad at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

### Gwariant y mae grant yn daladwy mewn perthynas ag ef

**3.** Ni fydd grant ond yn daladwy mewn perthynas â gwariant a ragnodwyd yr aed iddo neu yr eir iddo mewn blwyddyn ariannol i'r graddau bod y gwariant hwnnw wedi ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn honno gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddiben y Rheoliadau hyn.

### Grant mewn perthynas â thaliadau i drydydd partïon

**4.** Os—

(a) bydd awdurdod addysg yn mynd i wariant wrth wneud taliadau i unrhyw gorff neu bersonau eraill (gan gynnwys awdurdod addysg arall) sy'n mynd i wariant at neu yng nghyswllt dibenion addysgol, a

(b) y byddai'r gwariant gan dderbynnydd y taliadau neu unrhyw ran ohonynt yn wariant a ragnodwyd petai'n wariant yr awdurdod,

rhaid i daliadau o'r fath i'r graddau hynny gael eu trin fel gwariant a ragnodwyd at ddiben y Rheoliadau hyn.

### Cyfradd y Grant

**5.** Mae grant mewn perthynas â gwariant a gymeradwywyd i gael ei dalu ar gyfradd o 100 y cant o'r cyfryw wariant a gymeradwywyd.

### Amodau talu grant

**6.**—(1) Nid yw grant i gael ei dalu ac eithrio fel ymateb i gais ysgrifenedig oddi wrth awdurdod addysg i'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi'i ddilysu gan swyddog yr awdurdod ac sy'n gyfrifol am weinyddu eu materion ariannol neu ddirprwy y swyddog hwnnw.

(2) Rhaid i geisiadau am dalu grant ymwneud â gwariant dros un neu ragor o gyfnodau sy'n dechrau ar neu wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym a rhaid iddynt bennu'r gwariant a gymeradwywyd y gwneir cais mewn perthynas ag ef ac yr aeth neu yr amcangyfrifir yr aiff yr awdurdod addysg iddo yn ystod pob cyfnod o'r fath.

(3) Pan gyflwynir cais sy'n ymwneud â gwariant a gymeradwywyd yr aed iddo neu yr amcangyfrifir yr eir iddo yn ystod unrhyw un neu ragor o gyfnodau mewn unrhyw flwyddyn ariannol o dan baragraff (1) caiff y cyfryw daliad ag y penderfyna'r Cynulliad Cenedlaethol arno wneud yn ddi-oed.

(4) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud taliad o dan baragraff (3), nid yw grant pellach i gael ei dalu mewn perthynas â'r gwariant yr eir iddo yn ystod y cyfnod hwnnw neu'r cyfnodau hynny hyd nes i ddatganiad—

(a) am bob cyfnod o'r fath, neu

(b) am y flwyddyn ariannol y mae pob cyfnod o'r fath yn syrthio o'i mewn,

gael ei gyflwyno yn unol â pharagraff (6)(a).

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu bod rhaid i unrhyw dandaliad neu ordaliad o grant sy'n aros yn weddill wedi iddo dderbyn datganiad yr awdurdod addysg ac y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(a) (heb ragfarnu addasiad unrhyw dandaliad neu ordaliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall) gael ei addasu naill ai drwy daliad rhwng yr awdurdod a'r Cynulliad Cenedlaethol neu drwy gael ei gymryd i ystyriaeth mewn unrhyw daliad canlynol o grant i'r awdurdod addysg.

(6) Rhaid i bob awdurdod addysg sydd wedi cael neu sy'n ceisio cael taliad grant mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol neu gyfnod ohoni, cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol ganlynol neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi'r dyddiad hwnnw—

(a) gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad y mae'n rhaid iddo bennu'r gwariant a gymeradwywyd y gwnaed cais neu y gwneir cais am grant mewn perthynas ag ef, ac yr aeth yr awdurdod addysg iddo yn ystod y flwyddyn honno neu gyfnod ohoni; a

(b) sicrhau cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol dystysgrif a lofnodwyd gan yr archwilydd a benodir gan y Comisiwn Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr i archwilio cyfrifon yr awdurdod neu unrhyw archwilydd cymwys i'r cyfryw benodiad yn rhinwedd adran 3(5), (6) a (7) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998(**4**) ac sy'n ardystio bod y manylion a nodwyd yn y datganiad neu'r datganiadau a gyflwynwyd gan yr awdurdod yn unol â'r paragraff hwn yn ei farn ef wedi'u nodi'n deg a bod y gwariant yr aed iddo yn wariant a gymeradwywyd at ddiben y Rheoliadau hyn.

(7) Ac eithrio'r flwyddyn gyntaf wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, nid yw grant i gael ei dalu mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu'r eir iddo gan awdurdod addysg yn y cyfnod 1 Ionawr i 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn ariannol neu unrhyw gyfnod canlynol os talwyd grant i'r awdurdod mewn perthynas â gwariant mewn blwyddyn ariannol flaenorol ac nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol eto wedi cael tystysgrif yr archwilydd y cyfeirir ati ym mharagraff (6)(b) am y flwyddyn honNo.

(8) Rhaid i unrhyw dandaliad neu ordaliad o grant sy'n aros yn weddill, wedi cael tystysgrif yr archwilydd y cyfeirir ati ym mahragraff (6)(b) gael ei addasu drwy daliad rhwng yr awdurdod addysg a'r Cynulliad Cenedlaethol, ond os nad yw'r awdurdod yn cydymffurfio gellir ei addasu mewn unrhyw daliad o grant a wneir i'r awdurdod wedi hynny.

(9) Yn y rheoliad hwn ystyr “cyfnod” yw un o'r cyfnodau canlynol—

(a) 1 Ebrill i 31 Gorffennaf;

(b) 1 Awst i 31 Rhagfyr;

(c) 1 Ionawr i 31 Mawrth.

**7.** Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol, adeg cymeradwyo'r gwariant at ddiben y Rheoliadau hyn, yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â'r diben hwnnw, bydd talu grant yn amodol ar gynnwys yr wybodaeth honno yng nghais yr awdurdod addysg am dalu'r grant.

**8.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, wedi ymgynghori â'r awdurdod addysg, o bryd i'w gilydd benderfynu ar amodau pellach y bydd gwneud unrhyw daliad o dan y Rheoliadau hyn yn ddibynnol ar eu cyflawni.

(**4**) 1998 p.18

(2) Pan fydd amodau wedi eu penderfynu arnynt o dan y rheoliad hwn ni ellir talu grant oni bai i'r cyfryw amodau gael eu cyflawni neu eu tynnu o dan baragraff (3).

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu tynnu neu, wedi ymgynghori â'r awdurdod addysg, amrywio amodau y penderfynwyd arnynt o dan y rheoliad hwn.

### Gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy

**9.** Rhaid i unrhyw awdurdod addysg y gwnaed taliad grant iddo, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn, roi iddo'r cyfryw wybodaeth bellach ag y gall fod ei hangen arno i'w alluogi i wirio bod unrhyw grant a dalwyd wedi cael ei dalu yn briodol o dan y Rheoliadau hyn.

**10.**—(1) Rhaid i unrhyw awdurdod addysg y gwnaed taliad grant iddo gydymffurfio â'r cyfryw ofynion ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu arnynt yn yr achos dan sylw.

(2) Caiff gofynion y penderfynir arnynt o dan y rheoliad hwn gynnwys yn benodol ofynion o ran—

(a) ad-dalu'r grant; neu

(b) talu llog ar symiau sy'n ddyledus i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

16 Gorffennaf 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## ATODLEN

Rheoliadau 2, 3 a 7

### Y DIBEN Y MAE GRANT YN DALADWY AR EI GYFER NEU MEWN CYSYLLTIAD AG EF

Gwneud dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol o'r enw Grantiau Dysgu'r Cynulliad o dan Reoliadau Awdurdodau Llywodraeth Leol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol)(Cymru) 2002 i bersonau—

(a) sy'n dilyn cwrs o addysg bellach neu addysg uwch a ddynodwyd at ddibenion Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad,

(b) nad yw eu hadnoddau ariannol, fel y'u haseswyd yn unol â darpariaethau'r Cynllun hwnnw, yn uwch na lefel yr adnoddau ariannol a bennir yn yr amodau cymhwyster ar gyfer y Cynllun hwnnw, ac

(c) sy'n bodloni amodau cymhwyster eraill (os oes rhai) ar gyfer y Cynllun hwnnw,

mewn perthynas â'u costau byw a chostau eraill (ond gan eithrio costau sy'n cynnwys cost ffioedd mewn perthynas â neu yng nghyswllt cyrsiau).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 484 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu grant mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo gan awdurdodau addysg lleol at ddibenion neu yng nghyswllt dibenion addysgol yr ymddengys i'r Cynulliad Cenedlaethol y dylai'r awdurdodau gael eu hannog i fynd iddynt er budd addysg yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu'r cyfryw grant.

Mae Rheoliad 3 yn darparu nad yw grant yn daladwy ond mewn perthynas â'r diben a bennir yn yr Atodlen, a dim ond i'r graddau y cymeradwyir y gwariant gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Rheoliad 4 yn darparu ar gyfer talu grant mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo gan awdurdodau addysg lleol wrth dalu i drydydd partïon ac a fyddai'n gymwys ar gyfer grant petai'n wariant gan yr awdurdod.

Mae Rheoliad 5 yn darparu bod grant yn daladwy ar gyfradd o 100%.

Mae Rheoliadau 6 i 8 yn nodi'r amodau sy'n gymwys mewn perthynas â thalu grant, gan gynnwys gofynion archwilio. Mae Rheoliad 9 yn nodi nifer o ofynion eraill y mae'n rhaid i'r awdurdodau addysg lleol, y gwnaed y taliadau grant iddynt, gydymffurfio â hwy. Mae Rheoliad 10 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol osod gofynion ychwanegol.

Mae'r Atodlen yn nodi at ba ddiben neu yng nghyswllt pa ddiben y ceir talu grant, sef i wneud dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol yng nghyswllt y cynllun a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r enw Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. O dan y Cynllun caiff awdurdodau addysg lleol dalu dyfarndaliadau i bobl sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch ac a ddynodwyd at ddibenion y Cynllun, ac sy'n bodloni'r amodau o ran adnoddau ariannol a meini prawf cymhwyster eraill y Cynllun. Diben y Cynllun yw galluogi pobl sy'n brin eu hadnoddau ariannol i gymryd mantais o gyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt, drwy leihau caledi ariannol.